PWYLLGOR YMGYNGHOROL RHIANTA CORFFORAETHOL

DYDD MAWRTH, 24 MAI 2016

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Lent(Caedeirydd) |
| | Y Cynghorwyr De'Ath, Merry, Sanders a/ac White |

83 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Evans.

84 : DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

85 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Mawrth 2016 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

86 : ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNLLUN RHAGLEN HYFFORDDI PLANT SY'N DERBYN GOFAL

**Gwaharddwyd y cyhoedd o’r cyfarfod yn ystod cyflwyniad yr hyfforddeion/prentisiaid yn unol â pharagraff 12, Rhan(nau) 4 a 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.**

Croesawodd y Cadeirydd Nicola Wood, Cydlynydd Rhaglen Hyfforddi Plant sy'n Derbyn Gofal i’r cyfarfod, a dau o bobl ifanc sy'n cael eu cyflogi gan y Cyngor ar y cynllun ar hyn o bryd.

Rhoddodd Nicola a'r dau berson ifanc gyflwyniad i'r Aelodau, oedd yn trafod eu profiadau o'r cynllun.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau, sylwadau a thrafodaeth gan yr Aelodau:

- Bydd mwy o bwyslais ar gyfeirio o ran grwpiau lleiafrifol gan bod diffyg amrywiaeth;
- O ganlyniad i waith grŵp ffocws a wnaethpwyd, cyflwynwyd cais gan y bobl ifanc bod y geiriau ‘Plant sy’n Derbyn Gofal’ yn cael eu tynnu o deitl y cynllun;
- Mae angen mwy o waith dilynol/cefnogaeth i’r bobl sydd ynghlwm wrth yr achos i sicrhau eu bod yn parhau ar y cynllun oherwydd er bod 73 o gyfeiriadau wedi bod hyd yn hyn, dim ond hanner ohonynt sydd wedi bod wirioneddol ynghlwm wrth y broses.
  Mae protocol cyfeirio priodol yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, er mwyn ystyried a yw cyfeiriadau yn cael eu cyflwyno ar sail angen, neu'r cyntaf i’r felin neu blant ifanc hŷn. Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig bod anghenion y busnes yn cael eu bodloni.

- Trefnir cyfweliadau ar gyfer mis Mehefin i benodi gweithiwr cymdeithasol, a bydd rhai o'r bobl sydd ynghlwm wrth y cynllun hyfforddi ar y panel cyfweld;
- Bydd lansiad ar-lein o'r cynllun hyfforddi tua diwedd y flwyddyn, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i greu Ap y mae modd ei gysylltu gyda'r Ap *My Planner*.
- Cafwyd ymdrechion i weithio gyda gwasanaethau eraill, er enghraifft y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir, ac er bod yr adborth yn galonogol i ddechrau, nid oedd y cynllun yn bodloni eu gofynion.
- Cafwyd ymdrechion i weithio gyda'r Gyfarwyddiaeth Gweithrediadau'r Ddinas, a Rheoli Gwastraff yn benodol, a chynnig i gyflwyno'r cynllun i'r Undebau Llafur, ond ni dderbyniwyd ymateb positif.

Diolchodd y Cadeirydd i Nicola Wood a'r hyfforddeion/prentisiaid am fynychu, am eu cyflwyniad ac am ateb cwestiynau Aelodau.

PENDERFYNWYD: Nodi cynnwys yr adroddiad a'r cyflwyniad a roddwyd.

87 : RHEOLIAD 32 YR ADRODDIAD

**Nid oedd yr eitem hwn i'w gyhoeddi yn unol â pharagraff 12, Rhan(nau) 4 a 5 Deddf Llywodraeth Leol 1972.**

Roedd Debbie Martin-Jones yn bresennol i gyflwyno'r adroddiad ac i ateb cwestiynau Aelodau.

PENDERFYNWYD: Nodi'r wybodaeth yn yr Adroddiad Rheoliad 32 ac anfon llythyr i staff Cartref Plant Crosslands yn diolch iddynt am eu cefnogaeth barhaus o'r plant dan eu gofal.

88 : MATERION ADDYSG

Croesawodd y Cadeirydd Nicola Holder (Cydlynydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal Gweithredol) a Rosie Walsh (Mentor Ieuenctid Plant sy'n Derbyn Gofal) i'r cyfarfod. Rhoddwyd cyflwyniad i'r aelodau am waith y Tîm Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal, cyllid Plant sy'n Derbyn Gofal, data cyrhaeddiad a diwrnodiau hyfforddiant athrawon dynodedig.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau, sylwadau a thrafodaeth gan yr Aelodau:

- Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod ysgolion bellach yn gallu gwneud cais am y Grant Amddifadedd Cyllid Disgyblion eu hunain.
  Hoffai ysgolion gyflwyno bid am swm o arian i'w ddefnyddio ar gyfer hyfforddiant ELSA a LEGO o'i gymharu â'r system flaenorol o arian fesul plentyn.
- Mae gosod lefelau addysg ar gyfer pob plentyn yn dechrau gyda Chynllun Addysg Bersonol, mae deilliant disgwyliedig o fewn terfynau amser penodol. Byddai asesiad academaidd yn cael ei wneud a byddai lefel ddisgwyliedig. Roedd Aelodau'n pryderu am y weithdrefn berthnasol pe byddai gwahaniaethau o farn rhwng ysgolion a'r awdurdod. Rhoddwyd gwybod iddynt ei bod hi'n bwysig bod perthynas weithio dda yn cael ei datblygu gyda'r

ysgolion.  Mae'r dull monitro rhithiol yn gymorth i'r cyfathrebu hwnnw, gan ei fod yn cynnig gwybodaeth gyfredol sydd ar gael i'r Ymgynghorwyr Her.

PENDERFYNWYD:  Nodi cynnwys y cyflwyniad.

89 : ADRODDIAD CWYNION A CHANMOLIAETH CHWARTER 4 2015-16

Croesawodd y cadeirydd Kim Brown (Rheolwr Gwasanaeth, Polisi a Pherfformiad) i'r cyfarfod.

Rhoddwyd adroddiad i'r Aelodau oedd yn cynnwys gwybodaeth am gwynion a gohebiaeth rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth 2016, gan gynnwys crynodeb o gwynion gweithredol o'r cyfnod hwnnw, manylion am archwiliadau annibynnol a'r hyn sydd wedi'i ddysgu o gwynion o'r fath, manylion am archwiliadau'r ombwdsmon ac unrhyw themâu cyffredin o'r chwarter. Rhoddwyd crynodeb o'r ganmoliaeth hefyd.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau, sylwadau a thrafodaeth gan yr Aelodau:

- Gofynnodd a thrafododd yr Aelodau ynghylch a fyddai gweithio o adref yn effeithio ar y cwynion oedd yn codi'n aml am argaeledd Gweithwyr Cymdeithasol, ac a fyddai modd derbyn ffigyrau'r 12 mis diwethaf cyn cyflwyno gweithio o adref a 12 mis ar ôl cyflwyno maes o law, er mwyn i Aelodau allu asesu'r ymholiad hwnnw.
- Cyfeiriodd Aelodau ar baragraff 17 o'r adroddiad, a gofyn a fyddai modd iddynt gael diweddariad cyson ar y themâu blaenorol a godwyd.

PENDERFYNWYD:  Cefnogi cynnwys yr adroddiad a derbyn diweddariadau cyson am faterion thematig blaenorol a godwyd.

90 : ADRODDIAD SWYDDOGION ADOLYGU ANNIBYNNOL

Croesawodd y Pwyllgor Natasha James (Rheolwr Gwasanaeth, Diogelu ac Adolygu) i'r cyfarfod.  Cyflwynwyd yr adroddiad i Aelodau, eglurwyd pwrpas yr adroddiad sef i roi gwybodaeth am rôl, swyddogaeth a gweithgareddau'r gwasanaeth IRO.  Nodwyd bod gan IRO gyfrifoldeb penodol i uchafu materion am Blant sy'n Derbyn Gofal, drwy broses datrys gwrthdaro all arwain at CAFCASS Cymru yn bod ynghlwm wrth yr achos ac yn ystyried camau cyfreithiol, os oes angen.

PENDERFYNWYD:  Nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

91 : ADRODDIAD PWYLLGOR YMGYNGHOROL RHIANTA CORFFORAETHOL – EITEM TRAFOD

Ystyriodd yr aelodau gynnwys Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Ymgynghorol Rhianta Corfforaethol, gan gadarnhau nad oedd ganddynt unrhyw sylwadau pellach.  Byddai'r Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ym mis Mehefin 2016.

92 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Mae cyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol Rhianta Corfforaethol ddydd Mawrth, 19 Gorffennaf 2016 am 2.00pm.